## Cylch Gorchwyl Pwyllgor:
## Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

Yn atebol i'r: Senedd.

Cyfarfod: 4 gwaith y flwyddyn

*Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Mai 2021; diweddarwyd ddiwethaf: Gorffennaf 2021; i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
| --- | --- |
| • Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (Cadeirydd)<br>• Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil (Dirprwy Gadeirydd)<br>• Deoniaid Cyswllt y Cyfadrannau ar gyfer Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi x 3<br>• Pennaeth Cynllunio<br>• Pennaeth Ysgol y Graddedigion.<br>• Cadeirydd Panel Moeseg Ymchwil y Brifysgol<br>• Cyfarwyddwr, Ymchwil, Busnes ac Arloesi<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol<br>• Rheolwr Datblygu Ymchwil<br>• Rheolwr Datblygu Busnes a Datblygu Ewropeaidd<br>• Cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr<br><br>13 aelod.<br><br>Cworwm: 5 aelod, i gynnwys un o Ddeoniaid Cyswllt (Ymchwil) y Cyfadrannau<br><br>Os yw'r Cadeirydd yn cydsynio gellir gwahodd cynrychiolwyr i'r cyfarfodydd ar ran yr aelodau. | • Rheolwr Monitro Ymchwil a'r FfRhY<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Phennaeth y Llyfrgelloedd<br>• Rheolwr Cynllunio Gofod, Ystadau, Adnoddau a Llety<br>• Swyddog Effaith Ymchwil<br><br>Pe byddai'r Cadeirydd yn barnu bod hynny'n briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill o'r Brifysgol i'r cyfarfodydd. |

Cylch Cyfrifoldebau:

Swyddogaeth archwilio a chynllunio sydd gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, ac mae'n cynghori'r Senedd ar faterion cysylltiedig ag ymchwil, gan gynnwys: strategaethau ymchwil y sefydliad a'r cyfadrannau; paratoi ac adolygu cyflwyniad y Brifysgol i'r FfRhY; adrodd am y grantiau ymchwil allanol a enillir; adrodd am y defnydd o grantiau ymchwil mewnol; datblygu staff ar gyfer ymchwil; y rhyngwyneb rhwng addysgu ac ymchwil.

---

Cylch Gwaith:

1. Ystyried yr isod a'u hargymell i'r Senedd i'w cymeradwyo:

    a. Adolygiadau a newidiadau i brosesau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer rheoli a llywodraethu ymchwil.

    b. Cynlluniau i ddatblygu amgylchedd ymchwil y Brifysgol yn unol â mentrau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys datblygu a chefnogi ymchwilwyr.

    c. Datblygu ac arolygu Strategaeth Ymchwil ac Arloesi y Brifysgol, gan gynnwys datblygu ac arolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA).

d. Rhoi arweiniad i'r Cyfadrannau ynglŷn â threfnu a rheoli ymchwil, gan gynnwys amlinellu isafswm y disgwyliadau ynglŷn â swyddogaethau a chyfrifoldebau Deoniaid Cyswllt y Cyfadrannau ar gyfer Ymchwil, a Phwyllgorau Ymchwil y Cyfadrannau;
e. Cymeradwyo Strategaethau Ymchwil y Cyfadrannau a'r Adrannau
f. Adroddiadau o'r Grŵp Monitro Ymchwil, yn manylu ar ddulliau'r Cyfadrannau/Adrannau o gyflawni amcanion ymchwil strategol.

2. Ystyried a chymeradwyo'r isod ar ran y Senedd, yn unol â'r hawl sydd ganddo:

a. Datblygu, awdurdodi, gweithredu ac adolygu polisïau'r Brifysgol sy'n berthnasol i gyflawni Strategaeth Ymchwil ac Arloesi y Brifysgol.
b. Cyngor y Brifysgol wedi'i anelu at fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido a chynlluniau gan gyrff allanol sy'n ddylanwadau ar ddatblygiad ymchwil, gan gynnwys polisïau cyllido ymchwil CCAUC, y Cynghorau Ymchwil, a'r Undeb Ewropeaidd.
c. Datblygu agwedd strategol y Brifysgol tuag at y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, ac adolygu paratoadau a pharodrwydd Cyfadrannau / Adrannau am y FfRhY.
d. Datblygu ymchwil rhyngddisgyblaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth
e. Rhoi barn strategol ar weithrediadau'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi.
f. Cynghori Cyfadrannau/Adrannau a'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd ynglŷn â gweithgareddau addas ar gyfer ymgynefino, hyfforddi a datblygu i'r holl staff sydd â chyfrifoldebau ymchwil, ar bob cam o'u gyrfa.
g. Cynghori'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni (DARO) ynglŷn â blaenoriaethau ymchwil ar gyfer gweithgareddau codi arian.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Senedd fel sy'n briodol ar:

a. Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig ag ymchwil ac arloesi.
b. Strategaethau a dulliau i hyrwyddo gweithgaredd ymchwil, gan annog ceisiadau cryf am grantiau ymchwil, a hwyluso ymchwil amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol.
c. Datblygu a chynghori ynglŷn â chydweithrediadau â Phrifysgolion eraill yng Nghymru a sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol eraill.
d. Derbyn adroddiadau cynnydd gan Grŵp Concordat Ymchwilwyr Aberystwyth sy'n arolygu dull gweithredu'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr.
e. Strategaeth y Brifysgol ar gyfer uwchraddedigion ymchwil.
f. Hyrwyddo a gwreiddio cydraddoldeb a chynhwysiant yn holl weithgareddau ymchwil y Brifysgol.
g. Y rhyngwyneb rhwng addysgu ac ymchwil, er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r addysgu yn cael ei dywys gan ymchwil.

Gall y Pwyllgor sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen sy'n cael cyfnod penodol i ymgymryd ag unrhyw un o'r cyfrifoldebau uchod ar ei ran. Cytunir ar aelodaeth a dulliau adrodd Grwpiau Gorchwyl a Gorffen o'r fath gan Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, neu Ddirprwy Gadeirydd priodol, yn ôl y gofynion busnes.

---

Gweithredu

Bob chwarter blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cytuno ar adroddiad i'w gyflwyno i'r Senedd yn amlinellu'r materion allweddol a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod y chwarter, gan ganolbwyntio'n benodol ar benderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y Senedd, yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddo yn rhan o'r cylch gwaith.

Gall y Pwyllgor ystyried materion a gyfeirir ato gan y Cyngor, y Senedd, neu Weithrediaeth y Brifysgol.

Os yw'r pwyllgor yn cytuno ar argymhelliad ynglŷn â'r Strategaeth Ymchwil i'w gyflwyno i'r Cyngor, rhaid cyflwyno'r argymhelliad yn gyntaf i'r Senedd i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.